

Llenwadau* Arian

Beth ydyn nhw?

Mae llenwad yn amnewid* rhan o ddant sydd wedi'i golli oherwydd pydredd neu o ganlyniad i niwed damweiniol.

Caiff llenwadau 'arian' eu gwneud o amalgam – cymysgedd o fercwri gyda metelau eraill fel arian, tun a chopr. Mae amalgam yn feddal ar y dechrau ond yn troi'n galed iawn yn gyflym unwaith y caiff ei roi yn y dant.



Beth fydd fy neintydd yn ei wneud?

Bydd eich deintydd:

- fel arfer yn rhoi pigiad i chi i beri bod o gwmpas y dant yn ddideimlad – ond efallai na fydd angen rhoi anesthetig lleol ar gyfer llenwadau bychain.
- tynnu ymaith unrhyw bydredd, yn ogystal ag unrhyw hen lenwad, gan ddefnyddio dril cyflymder-uchel bychan.
- tynnu ymaith unrhyw ran o'r dant sy'n wan ac a allai dorri ymhellach ymlaen.
- siapio'r twll fel y bo'r dant yn dal y llenwad yn ei le.
- defnyddio pinnau bychain iawn a sgriwiau weithiau i ddal y dant a'r llenwad efo'i gilydd (ar gyfer llenwad mwy).
- rhoi leinin o dan y llenwad os yw'n ddwfn iawn, er mwyn gwneud y dant yn llai sensitif i newidiadau tymheredd.
- pwysu amalgam meddal yn dynn i'r twll – efallai y clywch chi wich fel y mae'n mynd i mewn.
- cerffio'r llenwad i ffitio'r dant (efallai y bydd y deintydd yn rhoi bandyn metel tenau o gwmpas y dant wrth wneud hyn i gadw'r amalgam yn ei le tra mae'n dal yn feddal).
- gofyn i chi gau eich ceg yn ysgafn ar y llenwad i weld a yw o'r uchder cywir ac yn gyffyrddus
- llathru*r llenwad ar eich ymweliad nesaf, pan fo wedi caledu'n llwyr.

Beth ydi'r manteision?

- Mae llenwad yn ailadeiladu'r dant er mwyn i chi allu cnoi'n iawn.
- Os gadewir pydredd heb ei drin, fe all ledaenu i'r dant, gan achosi poen a haint*. Fe allai hynny olygu y byddai'n rhaid llenwi gwreiddyn y dant neu hyd yn oed ei dynnu.
- Gall llenwad atal dannoedd neu rwystro dannoedd rhag datblygu.
- Mae llenwadau arian yn gryf iawn ac felly'n ddelfrydol ar gyfer y dannedd cefn, lle mae'r draul fwyaf oherwydd cnoi. Mae iddynt, fodd bynnag, anfantais gosmetig gan eu bod yn troi'n ddu gydag amser. Mae llenwadau gwynion hefyd ar gael, ond efallai fod y rheini fyrrach eu parhad na llenwadau arian o ganlyniad i draul a difrod* cnoi.

GEIRFA: amnewid = to replace; haint = infection; llathru = to polish; llenwad(au) = filling(s); traul a difrod = wear and tear